

Newyddlen Siambr Fasnach a Thwristiaeth Bro Ffestiniog Mai 2013.

Mae hwn ychydig yn gynt na ddywedwyd ond gan bod cymaint yn mynd ymlaen, ni fedrwn ei adael tan ganol mis Mehefin.

Adroddiad Siopwyr Dirgel:

Yn gynnar yn Ebrill, derbyniodd y Stryd Fawr a Stryd yr Eglwys ymweliadau gan grŵp o siopwyr dirgel ac ar y 13eg o Fai, cyflwynwyd canfyddiadau'r ymweliadau gan Pryderi ap Rhisiart o Gyngor Gwynedd ar ran Blaenau Ymlaen a gomisiynodd y gwaith. Roedd rheini a oedd yn bresennol wedi derbyn eu adroddiadau cyfrinachol unigol bryd hynny, gyda'r gweddill a dderbyniwyd ymweliad yn derbyn rhai nhw drwy'r post. Er na welwyd pob adroddiad yn unigol, derbyniwyd gorolwg cyffredinol (sydd eisoes wedi ei gylchredeg) a trafodwyd y pwyntiau canlynol:

1) Oriau agor a chau hanner diwrnod.

Nid oedd patrwm amlwg ymysg rheini a oedd yn bresennol a casglwyd fel tref dwristiaeth y pwysigrwydd bod rhai siopau wastad ar agor fel nad oedd pawb yn cau yr un pryd.

Mae prynhawn dydd Sadwrn yn parhau i fod yn ddistaw iawn ond yn raddol mae'n cychwyn prysuro yn y Stryd Fawr lle mae fwy o siopau mewn clwster yn agor. Teimlwyd bod angen ymgyrch i geisio gwella hyn a cynigiwyd 'Un Sadwrn y mis – Pawb ar agor'. Beth am yr 2il Ddydd Sadwrn o bob mis? Mae Blaenau Bendigedig eisoes yn cynnal sêl bwrdd ac efallai bod modd i ni gynnwys ychwaneg o bethau megis teithiau gerdded o amgylch y dref neu cynigion arbennig i wneud popeth yn fwy ddeniadol. Os oes gennych unrhyw syniadau, plis cysylltwch gyda mi neu Zoe.

Y peth pwysig yw arddangos yn glir eich oriau agor gan gynnwys manylion cyswllt ar bob busnes.

2) Blaen Siopau.

Dywedwyd bod nifer o fusnesau angen gwella tu allan i'w eiddo. Atgoffodd Pryderi bod grant hyd at 75% ar gael i uwchraddio blaen siopau gyda mwyafswm o £18,750.

Soniwyd hefyd am eiddo gwag, gyda'r Siambr eisoes wedi ysgrifennu i'r Swyddog Tai Gwag Lleol sydd yn eu tro wedi cysylltu gyda siopau cyfagos. Cynigiwyd bod y siambr hefyd yn ysgrifennu'n uniongyrchol o berchnogion yr eiddo.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnig cydweithio gyda'r Siambr i adnabod rhai siopau gwag a ellir eu cynnwys o fewn y cynllun 'Prosiect 'Vinyl', lle mae'r holl ffenestr yn cael ei orchuddio gyda 'vinyl' gyda llun dda o dirwedd yr ardal leol. Gofynnwyd i'r aelodau i enwebu siopau yr hoffent dderbyn y driniaeth hon a gadael i Zoe wybod. Mae'n bosib gwneud 2 – 3 o siopau gwahanol.

3) Map o'r Dref

Cytunodd bawb y dylid cyhoeddi map o'r dref yn lleoli rhengiau beic, toiledau a chyfleusterau eraill. Roedd nifer o siopau yn awyddus i gael eu cynnwys ar y map ond roedd amharodrwydd i wneud hyn gan y byddai yn dyddio'r map yn syth. Rwyf yn teimlo bod angen ymchwilio i mewn i hyn ymhellach gan bod modd ei osod ar-lein a chyfle i'w lawrlwytho.

4. Gwasanaeth Cwsmer.

Dywedwyd fod busnesau unai yn Gymraeg neu Saesneg y hytrach na ddwyieithog. Fodd bynnag, teimlwyd y dylid fod yn falch o'r Cymreictod a bod bathodynau ar gael am ddim gellir siaradwyr Cymraeg a Dysgwyr Cymraeg eu gwisgo. Gellir archebu rhain drwy

<http://www.comisiynyddgymraeg.org/English/Assistance/Pages/ordercymrbadges.aspx>

Wnaiff Blaenau Ymlaen/Cyngor Gwynedd a'r Siambr ymchwilio i weld pa gyrsiau sydd ar gael i helpu gyda hyfforddiant staff, marchnata weledol ayyb.

Roedd yn siomedig nad oedd llawer o fobl yn adnabod eu tref ond mae dyddiau codi ymwybyddiaeth wedi cymeryd lle felly mae o i fyny i ni i barhau i ledaenu'r neges ac annog staff i gerdded o amgylch y dref a chwilio ar y wefan er mwyn ymgyswrtio eu hunain i'r Blaenau newydd.

Cofiwch hefyd fod ddigon o Llyfrau gwybodaeth am Bl.Ffest a llyfryn Llwybrau Barddoniaeth ar gael yn Swyddfa'r Cyngor Tref ar y Stryd Fawr – plis gwnewch ddigon o ddefnydd ohonynt.

5) Gwneud eto

Teimlwyd y byddai'n syniad da gwahodd y siopwyr yn ol i'r dref ar ddiwedd y flwyddyn fel eu bod yn gallu nodi unrhyw gwelliannau a rhoi digon o gyfle i fusnesau ymateb i'r sylwadau cychwynnol.

Rydym yn gobeithio bod hwn wedi bod yn weithgaredd buddiol a bod pawb yn gallu cydweithio i barhau i wella'r dref.

Dyddiadau Eraill i'w cofio:

Sadwrn 8fed o Fehefin. Sêl Bwrdd Blaenau Bendegeidig 10yb – 1yp o fewn neuadd yr Eglwys i godi arian tuag at Tan Gwyllt a Noson Goleuo 'Stiniog.

Sul 23ain o Fehefin – Carnifal Tanygrisiau. Cysylltwch er mwyn archebu stondin. £5 am fwrdd i grwpiau cymunedol, £20 i fusnesau. Digonedd o adloniant gan gynnwys yr anhygoel Dawnsywyr Morris a llawer, llawer mwy.

28ain o Fedi – Diwrnod Rheilffordd Cymunedol – rhagor o wybodaeth i ddilyn.